Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: Carchar Ei Fawrhydi Abertawe

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 20 Mehefin 2023

Ymateb i Arolwg Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi:
21 Chwefror – 10 Mawrth 2023

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 20 Mehefin 2023

**CYFLWYNIAD**

Arolygon annibynnol yw Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi Cymru a Lloegr sy'n craffu'r amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr a'r driniaeth ohonynt. Adroddant eu casgliadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf a gwasanaethau troseddwyr ifanc ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ac i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad, mae'n ofynnol i'r HMPPS / MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i roi sylw i'r pryderon a flaenoriaethir ac i'r rhai allweddol. Rhydd cynlluniau gweithredu gamau a gweithrediadau penodol i roi sylw i'r pryderon a flaenoriaethir ac i'r rhai allweddol, sy'n glir, yn canolbwyntio ar y canlyniad, yn fesuradwy, cyflawniadwy ac yn berthnasol gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi'i nodi'n glir. Anfonir cynlluniau i'r HMIP a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Byddir yn monitro cynnydd yn erbyn gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu ac yn adrodd arno.

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD HMIP

SEFYDLIAD : CARCHAR EI FAWRHYDI ABERTAWE

| **1.<br>Rhif Cofnod** | **2.<br>Pryderon** | **3.<br>Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd** | **4.<br>Perchennog Cyfrifol** | **5.<br>Dyddiad Targed** |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon a flaenoriaethir** | | | |
| 1. | **Nid oedd proses gynefino ffurfiol.** Roedd y cynefino'n wasgaredig a heb ei fonitro, ac nid oeddem yn hyderus bod yr holl asiantaethau perthnasol wedi gweld y carcharorion yn ystod eu dyddiau cynnar yn y ddalfa. | Bydd y Penaethiaid Diogelwch, Preswyl a Dysgu a Sgiliau yn gwella'r cynnig cynefino i'r holl garcharorion newydd trwy:<br>• Gomisiynu Arweinydd Diogelwch Grŵp y Carchar i gynnal adolygiad pelllach o'r bws i'r gwely (O dderbyn i Gynefino) er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y broses fel bod modd rhoi sylw iddynt/gwella arnynt.<br>• Adolygu'r cynnig cynefino ar gyfer y sefydliad er mwyn sicrhau, pan fo carcharor yn dod i Garchar Ei Fawrhydi Abertawe, y bydd y broses gynefino'n rhoi eglurder ar yr hyn a gyflawnir, gan bwy a phryd.<br>• Cyflwyno system tracio i sicrhau bod yr holl garcharorion yn cael sesiwn gynefino ffurfiol, yn cynnwys addysg, ac yn cael eu gweld gan yr holl asiantaethau perthnasol.<br>• Sicrhau fod yr holl garcharorion yn cael sesiwn gynefino ag addysg cyn pen wythnos o gyrraedd ac yn cael eu neilltuo i weithgaredd priodol a bod y broses yn haws i'w lywio ac i garcharorion ei deall.<br>• Cwblhau holiadur ymgynghori dilynol i garcharorion trwy weithwyr cymheiriaid pob chwarter, gan ddechrau Mehefin 2023 i roi dadansoddiad parhaus o effeithlonrwydd y broses gynefino yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Mehefin 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Byddir yn trafod monitro ac effeithiolrwydd y prosesau cynefino yng nghyfarfod boreol y Tîm Uwch-reolwyr ac yn fisol yn y Cyfarfod Sicrhau Perfformiad, gan ddefnyddio'r system tracio a'r holiadur i nodi mannau y mae angen gwella arnynt, fel bod modd creu camau priodol i roi sylw iddynt. | | Awst 2023 |
| 2. | **Roedd gormod o garcharorion yn byw mewn celloedd gorlawn a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer un person.** | Nid yw lleoli dau garcharor mewn cell a fwriadwyd ar gyfer un person byth yn ddelfrydol, ond mae'n parhau i fod yn angenrheidiol ledled y carchar er mwyn rhoi llety i'r rheiny i gyd a garcharwyd gan y llysoedd.<br><br>Mae HMPPS yn darparu 20,000 o leoedd carchar modern ychwanegol nad ydynt yn orlawn, rhaglen codi'r carchar mwyaf mewn canrif, gan sicrhau fod yr amodau cywir yn eu lle i ailsefydlu carcharorion a chynorthwyo i leihau troseddau a gwarchod y cyhoedd. Efallai y bydd opsiynau yn y dyfodol i ostwng gorlenwi ymhellach. Er enghraifft, os yw'r twf yn nifer y carcharorion yn arafach na'r hyn a ragamcenir a bod digon o le yn y carchar. Fel hyn, byddai modd targedu gostyngiadau yn y mannau lleiaf addas mewn carchar (yn cynnwys mannau gorlawn), ond nid yw'n bosibl ymrwymo i hyn yn seiliedig ar y nifer a ragamcanwyd fwyaf diweddar. Ar ben hyn, mae hefyd yn anodd rhagweld sut y bydd y tueddiadau cenedlaethol hyn yn datblygu'n lleol a bydd cyfran y carcharorion a gedwir mewn celloedd gorlawn yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe o hyd yn dibynnu ar niferoedd y boblogaeth ranbarthol a'r galw amdanynt.<br><br>Yng ngwanwyn 2022, cyhoeddodd HMPPS fframwaith ddiwygiedig ar gyfer ardystio llety carcharorion, o le daw'r capasiti gweithredol sydd ar gael yn y carchar. Er gallai'r rhan fwyaf o gelloedd unigol yn y system carchar gymryd dau berson yn ffisegol, mater o farn weithredol, gan ystyried y peryglon i ddiogelwch a sefydlogrwydd, yw pennu beth yw'r nifer uchaf y gall sefydliad penodol ei ddal cyn bod yn orlawn. Ar adegau pan fo pwysau difrifol ar niferoedd, byd disgwyl i sefydliadau ddal cymaint o garcharorion ag y gallant roi lle iddynt yn ddiogel, ond yr | HMPPS/PGD/Llywodraethwr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | un mor glir bydd disgwyl mai'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am reoli'r carchar ddylai bennu'r nifer honno, nid proses ganolog na materion chyflenwad a galw ehangach.<br>• Bydd HMPPS, Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar (PGD), a'r Llywodraethwr yn parhau i adolygu capasiti gweithredol yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe yn unol â'r fframwaith ddiwygiedig ar gyfer ardystio llety carcharorion i ostwng gorlenwi, lle/os yw'n bosibl.<br>• Ers yr arolwg, cytunwyd gydag Uned Rheoli Niferoedd yr HMPPS i ostwng capasiti gweithredol yn y carchar o 492 i 468, gan gynyddu niferoedd y celloedd sengl sydd ar gael.<br>• Byddir yn ystyried gostwng rhagor ar y capasiti gweithredol yn y Cyfarfod Capasiti Cenedlaethol y mae disgwyl ei gynnal ym Mehefin 2023. | HMPPS/PGD/Llywodraethwr<br><br>PGD/Llywodraethwr<br><br>PGD/Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 3. | **Roedd trefn y penwythnos yn rhy gyfyngedig gyda 90 munud yn unig allan o'r gell bob dydd i'r rhan fwyaf o garcharorion.** | Bydd Carchar Ei Fawrhydi Abertawe yn edrych ar ffyrdd i gynyddu cynnig trefn y penwythnos sydd ar gael i garcharorion trwy:<br>• Adolygu trefniadau'r dyfodol yn rhan o ymarfer ailbroffilio staff er mwyn sicrhau y cynhwysir trefn penwythnos sy'n gwneud y mwyaf o amser allan o'r gell i garcharorion, ar yr un pryd â sicrhau diogelwch.<br>• Edrych ar ffyrdd i gynyddu faint o weithgaredd pwrpasol sydd ar gael ar benwythnosau, cynyddu faint o amser allan o'r gell sydd ar gael i gyfran fwy o'r carcharorion.<br>• Sicrhau bod y drefn yn llithro cyn lleied â phosib fel bod y carcharorion yn cael yr hawliadau a gyhoeddwyd.  Bydd Llywodraethwr Dyletswydd y penwythnos a Swyddogion y Dydd yn sicrhau y byddir yn glynu wrth amseroedd ym mhob man ac y rhoddir gwybod am hyn yn sesiwn briffio gweithredol y Tîm Uwch-reolwyr bob dydd Llun. | Llywodraethwr | Hydref 2023<br><br>Tachwedd 2023<br><br>Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4. | **Effeithiwyd ar ehangder a safon y ddarpariaeth addysg oherwydd nad oedd gweithdai ac yn sgil trefnu gwael y sesiynau cynefino a neilltuo.** Roedd anghysonderau ym mynediad carcharorion i sesiwn gynefino ag addysg a neilltuo lleoedd, oedi wrth agor gweithdai newydd sy'n berthnasol i'r farchnad lafur a mynediad annigonol i offer asesu a darparu'r cwricwlwm. | Bydd Penaethiaid Dysgu a Sgiliau a Sgiliau Addysg a Gwaith yn gwella ehangder a safon darpariaeth gweithgareddau trwy:<br>• Gwblhau'r gwaith ar ddau weithdy newydd sydd yn rhoi i garcharorion sgiliau perthnasol i gael mynediad at y farchnad lafar leol a chynyddu'r ddarpariaeth gweithgareddau a chael trefn well o ran mynediad yn y sefydliad.<br>• Adolygu'r cynnig o sesiwn gynefino yn y sefydliad, sicrhau fod yr holl garcharorion yn cael addysg o fewn wythnos i gyrraedd ac yn cael eu neilltuo ar gyfer gweithgaredd priodol a bod y broses yn haws i'w lywio ac i garcharorion ei deall.<br>• Adolygu'r broses neilltuo, gan gynnwys y system gofnodi ar gyfer neilltuo/presenoldeb, ei gwneud yn haws deall y prosesau ac i'r carcharorion ei llywio.<br>• Cynhyrchu proses neilltuo/rhestr aros newydd fydd yn caniatáu trosglwyddiad mwy esmwyth i mewn i gyflogaeth sy'n cyfateb â Chynlluniau Datblygiad Personol Carcharorion. Bydd y rhestr aros newydd yn gostwng amseroedd aros ac yn gwneud i ffwrdd ag annhegwch wrth neilltuo cyflogaeth, gan ganiatáu cyfleoedd cyfartal i bawb.<br>• Sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau staff priodol yn eu lle i hyfforddwyr, gan ganiatáu iddynt asesu cymwysterau yn unol â safonau cenedlaethol.<br>• Gwreiddio a monitro'r defnydd a wneir o'r gliniaduron Coracle sydd wedi'u cyflwyno i'r gweithdai sy'n darparu'r cwricwlwm ac yn cynorthwyo carcharorion i gynnal eu haddysg a pharhau â hi pan fyddant yn eu man gwaith.<br>• Parhau i edrych ar ffyrdd i wella cysylltedd â'r fewnrwyd ym mhob man fel bod modd i hyfforddwyr/tiwtoriaid gael at wybodaeth am garcharorion a diweddaru Cynlluniau Datblygiad Personol, fel bo'r gofyn. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Mawrth 2024<br>Wedi'i gwblhau<br>Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Byddir yn monitro'r camau hyn a'u heffeithlonrwydd yn y Cyfarfod Sicrhau Perfformiad misol. | | Wedi'i gwblhau |
| 5 | **Nid oedd arweinyddion yn deall pam bod achosion o ddim presenoldeb mewn addysg, sgiliau a gwaith, felly nid oedd modd iddynt gynllunio gwelliant yn effeithiol.** | I gynllunio gwelliant effeithiol a chynyddu nifer oedd yn cael addysg, sgiliau a chynyddu nifer y mannau gwaith, bydd y Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith, y Pennaeth Gostwng Aildroseddu a'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau yn:<br>• Cynnal adolygiad llawn o'r gweithdrefnau neilltuo a phresenoldeb ar gyfer gweithgaredd pwrpasol yn y sefydliad, mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid mewnol perthnasol a chyda chefnogaeth a throsolwg swyddfa Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar i wreiddio blaengynllunio effeithiol.<br>• Craffu gwaith neilltuo gweithgareddau pwrpasol y byddir yn adrodd arno i'r Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith, y Pennaeth Gostwng Aildroseddu a'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau yng nghyfarfod boreol dyddiol yr Uwch-dim Rheoli, gan ganolbwyntio ar gael cymaint o gapasiti a phresenoldeb â phosib.<br>• Nodi a herio dim presenoldeb wrth, hefyd, edrych ar y rhesymau drosto, datblygu strategaeth a dulliau gweithredu newydd i ddwyn i mewn unigolion a gwella presenoldeb mewn gweithgareddau pwrpasol.<br>• Sicrhau y creffir yn llawn ar y wybodaeth a ddaw o weithgareddau hunanwerthuso ac am achosion o ddim presenoldeb. Byddir yn trafod y wybodaeth hon yn y cyfarfod amlddisgyblaethol gostwng aildroseddu misol, lle byddir yn creu camau i wella nifer y rhai sy'n sy'n ymgymryd â gweithgareddau, gostwng y nifer sydd ddim yn presenoli a gwella'r cynnig sydd ar gael ym mhob gweithgaredd a monitro a thracio hyn. | Llywodraethwr | Awst 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Hydref 2023<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | **Rhyddhawyd gormod o garcharorion oedd heb lety ddiwrnod eu rhyddhau.** | Nod y Pennaeth Gostwng Aildroseddu fydd gwella trefniadau cynllunio i ailsefydlu carcharorion trwy:<br>• Sicrhau yr asesir anghenion ailsefydlu pob carcharor newydd, yn cynnwys statws eu llety cyfredol ac unrhyw gytundebau tenantiaeth, waeth beth yw statws ei ddedfryd neu berygl niwed.<br>• Cyfeirio'r holl garcharorion y mae angen llety arnynt at yr awdurdod lleol/darparwr tai lleol lle cânt eu rhyddhau.<br>• Cydweithio rhwng y carchar a Gwasanaeth Prawf Cymru i wella'r ddarpariaeth ailsefydlu i'r holl garcharorion, yn cynnwys llety.<br>• Cynnal cysylltiadau effeithiol rhwng y carchar a rheolwyr troseddu prawf cymunedol, yn cynnwys timau dedfrydau byr prawf, gan sicrhau y caiff achosion eu trosglwyddo'n amserol fel y rhoddir sylw i anghenion unigol cyn i garcharorion gael eu rhyddhau.<br>• Sicrhau yr estynnir gwahoddiad i'r holl garcharorion ddod i'r bwrdd cyn-rhyddhau amlddisgyblaethol bythefnos cyn iddynt gael eu rhyddhau i drafod unrhyw faterion nad ydynt wedi'u datrys.<br>• Parhau i fonitro statws llety carcharorion ddiwrnod eu rhyddhau, nodi materion/rhesymau pam caiff carcharorion eu rhyddhau'n ddigartref neu i lety dros dro.<br>• Byddir yn trafod data llety yn y cyfarfodydd gostwng aildroseddu sicrhau perfformiad misol, byddir yn creu canlyniadau yn y cyfarfodydd, yn cynnwys trosglwyddo materion a nodir ymlaen i'r awdurdod lleol priodol a/neu i'r Uned Cyflawni Prawf. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 7. | **Roedd y drefn yn yr uned ar wahân yn rhy gyfyngedig.** Treuliai carcharorion oedd ar | Bydd y Pennaeth Preswylio a Diogelwch yn gwella cynnig y drefn i garcharorion yn yr Uned Gofalu a Gwahanu trwy: | Llywodraethwr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wâhan gyfnodau hir dan glo yn eu celloedd gyda fawr ddim i'w wneud, mynediad cyfyngedig at y ffôn a 30 munud yn unig yn yr awyr agored pob diwrnod. | • Adolygu cynnig y drefn gyfredol i bennu a oes modd gwella arni, gan gynnwys mynediad parhaus at weithgaredd a gallu defnyddio'r llinellau ffôn y tu allan i'r celloedd i wella cysylltiad â'r teulu, yn amodol ar yr asesiadau risg angenrheidiol.<br>• Sicrhau fod gan yr holl garcharorion yn yr Uned Gofalu a Gwahanu gynllun ailintegreiddio o fewn 72 awr i gael eu lleoli ar yr uned, gyda nodau y cytunwyd arnynt y gellid gwella mynediad at drefn/gweithgaredd pwrpasol lawnach os cyflawnir hyn ac y gallent, o bosibl, adael yr uned yn gynt.<br>• Bydd y Pennaeth Cyflawni Rheolaeth Troseddwyr yn neilltuo gweithiwr allweddol i'r holl garcharorion ar yr uned o fewn 24 awr i gyrraedd yno i'w cynorthwyo i gyrraedd eu nodau a rhoi sylw i'r materion a barodd iddynt gael eu gwahanu.<br>• Rhoi i garcharorion na allant adael yr Uned Gofalu a Gwahanu fynediad at weithio yn yr adeiniau neu at weithgaredd sydd â'r opsiwn i ddysgu yn y gell.<br>• Byddir yn monitro'r camau hyn a'u heffeithlonrwydd trwy'r Grŵp Gwahanu Monitro ac Adolygu chwarterol (SMARG). | | Wedi'i gwblhau<br><br>Awst 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Gorffennaf 2023<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 8. | **Nid oedd y cynllun gwaith allweddol yn gweithredu'n effeithiol.** Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau gwaith allweddol rheolaidd ac nid oedd y sesiynau a gynhaliwyd yn cefnogi'r cynnydd yn ystod y ddedfryd. | Bydd Carchar Ei Fawrhydi Abertawe yn gwella gwaith cyflawni ac ansawdd gwaith allweddol i gefnogi carcharorion i wneud cynnydd yn ystod eu dedfryd trwy:<br>• Gwblhau ymarfer ailbroffilio adnoddau staffio i sicrhau fod y carchar yn cynyddu cymaint â phosib nifer yr oriau sydd ar gael i gyflawni gwaith allweddol.<br>• Bydd yr Hwb Pobl yn parhau i gynyddu cymaint â phosib nifer y staff sy'n gwneud gwaith allweddol yn ddyddiol.<br>• Sicrhau y defnyddir yn llawn y Cynllun Rheoli Trefn i sicrhau y cynhelir y cydbwysedd rhwng cael trefn a gwaith allweddol ac y caiff ei fonitro yn sesiynau briffio dyddiol y Tîm Uwch-reolwyr. | Llywodraethwr | Hydref 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y Pennaeth Cyflawni Rheolaeth Troseddwyr yn cynnal arolwg o'r broses sicrhau ansawdd cyfredol i sicrhau y caiff yr holl agweddau ar waith allweddol eu cyflawni'n effeithiol, gan sicrhau atebolrwydd ac y rhoddir adborth adeiladol i weithwyr allweddol er mwyn gwreiddio datblygiad parhaus. Bydd sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar y carcharor, gan nodi pa wasanaethau/ymyraethau y mae'r carcharor unigol wedi'u cael, gyda dilyniant parhaus cysylltiad wrth fynd ymlaen.<br>• Cyflwyno cyfarfodydd misol gyda rheolwyr Preswyl, Penaethiaid Preswylio a Rheolwyr yr Uned Rheoli Troseddwyr ar gynnydd gweithwyr allweddol, gan sicrhau y caiff perthynas adeiladol ei datblygu sy'n meithrin ymddygiad cadarnhaol. Wedi'u cefnogi gan Reolwyr Gwarchod Preswyl sy'n Sicrhau Ansawdd misol o 10% o nodiadau gweithiwr allweddol a'r Pennaeth Cyflawni Rheolaeth Troseddwyr yn gwirio 10% o wiriadau'r Rheolwr Gwarchod. | | Gorffennaf 2023<br><br>Medi 2023 |
| 9. | **Er gwaethaf gwelliannau mewn strwythurau llywodraethu strategol a rheoli risg, roedd pwysau staffio mewn gofal iechyd wedi tynnu arweinyddion i mewn i waith clinigol, gan ostwng eu gallu i sicrhau bod y strwythurau hyn yn gwella diogelwch a chanlyniadau.** | I wella strwythurau llywodraethu a chyflawni gwasanaethau iechyd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn:<br>• Cynnal adolygiad o ymyraethau gofal iechyd a datblygu cais am adnoddau ychwanegol gyda chanfyddiadau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Iechyd.<br>• Gwella'r wybodaeth am berfformiad sydd ar gael oddi wrth bob partner ar gyfer ei thrafod yng nghyfarfodydd misol Bwrdd Partneriaeth y Carchar rhwng y Llywodraethwr a'r Pennaeth Gofal Iechyd. Bydd materion a nodwyd ynghylch perfformiad a chyflawniad a gyfyd o gyfarfod y bwrdd partneriaeth y mae angen eu trosglwyddo ymlaen gan Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru HMPPS i Lywodraeth Cymru yn:<br>• Sicrhau fod staff y carchar a gofal iechyd yn ymwybodol y gallant drosglwyddo ymlaen faterion nad ydynt yn gallu eu datrys yn lleol i | Arweinydd Gofal Iechyd<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsys Grŵp yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol (A fonitorir trwy Gynllun Gweithredu Arolygiaeth Iechyd Cymru) | Medi 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Fwrdd Trosolwg Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Carchar a gadeirir ar y cyd gan HMPPS yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.<br>• Bydd y capasiti a'r galw am wasanaethau gofal iechyd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe yn parhau i gael eu hadolygu'n barhaus trwy strwythur cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd chwarterol y bydd y Llywodraethwr yn mynd iddo. | | Wedi'i gwblhau |
| 10. | **Roedd gofyn gwella gwaith cadw cofnodion proffesiynol ar draws yr holl dimau gofal. Roedd gwybodaeth yn brin ac nid oedd y diagnosis, y cynlluniau triniaethau a'r rhesymeg dros ragnodi bob amser yn amlwg.** | I wella gwaith cadw cofnodion proffesiynol yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn:<br>• Datblygu cynllun archwilio rhwng gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd a gofal Sylfaenol i wella cynnwys diagnosis, cynlluniau triniaethau a'r rhesymeg dros ragnodi.<br>• Caiff dogfennau eu hychwanegu at y cynllun archwilio i ganolbwyntio ar yr holl ddisgyblaethau, yn cynnwys diagnosis, cynlluniau triniaethau a rhagnodi.<br>• Caiff y cynllun ei gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth y Carchar yng Ngorffennaf 2023. Byddir yn adrodd ar gynnydd a chanlyniadau archwiliadau Grŵp Ansawdd a Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (ac i'r grŵp gwasanaeth cyfatebol mewn Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu) ac i Fwrdd Partneriaeth y Carchar yn ddiweddarach. | Arweinydd Gofal Iechyd<br><br>Arweinydd Gofal Iechyd<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsys Grŵp yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol a Phennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu. | Awst 2023<br><br>Awst 2023<br><br>Gorffennaf 2023 |
| 11. | **Ni châi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n effeithiol.** Roedd gwaith asesu anghenion dysgu ychwanegol carcharorion yn | Bydd Penaethiaid Dysgu a Sgiliau a Sgiliau Addysg a Gwaith yn gwella'r gefnogaeth i garcharorion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy:<br>• Gyflogi Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth i adolygu lefelau o gefnogaeth a gwneud newid.<br>• Dyfeisio Strategaeth i staff Addysg a Diwydiannau ymestyn eu gwybodaeth ynghylch hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol a strategaethau cefnogol i garcharorion. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Medi 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dibynnu gormod ar hunanddatgelu. | • Bydd y Pennaeth Dysgu a Sgiliau'n cadw mewn cysylltiad â thîm rhanbarthol Cymorth a Sicrhad Strategol i edrych ar opsiynau cyllido ar gyfer offer asesu mwy ffurfiol.<br>• Parhau i gefnogi carcharorion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy ddefnyddio a datblygu'r ystod gyfredol o strategaethau, gan gynnwys ymestyn yr adnoddau cyfredol sydd ar gael a pharhau i ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd benodedig i gefnogi llesiant.<br>• Parhau i annog hunanddatgelu a defnyddio mentoriaid i gefnogi carcharorion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol i wella lefelau datgelu.<br>• Byddir yn monitro'r gweithredoedd hyn a'u heffeithlonrwydd trwy'r Cyfarfod Sicrhau Perfformiad misol. | | Rhagfyr 2023<br><br>Medi 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 12. | **Nid oedd cefnogaeth yn y dosbarth i egin ddarllenwyr wedi'i ddatblygu ddigon.** | Bydd y Pennaeth Dysgu a Sgiliau'n gwella'r gefnogaeth i egind darllenwyr trwy:<br>• Adolygu ac ail-lansio rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon i gefnogi egin ddarllenwyr.<br>• Dylunio strwythur, proses a Strategaeth Ddysgu newydd a gaiff eu cylchredeg ledled y sefydliad i hysbysebu'r gwasanaeth i staff a charcharorion fel eu bod yn gwybod sut i gyfeirio egin ddarllenwyr neu ddangos y ffordd iddynt.<br>• Darparu hyfforddiant staff ychwanegol i athrawon a hyfforddwyr, gan ganiatáu iddynt alluogi mwy o gefnogaeth yn y dosbarth/gyda gweithgareddau.<br>• Sicrhau fod mentoriaid Ymddiriedolaeth Shannon yn cefnogi dysgwyr yn y man gwaith ac ar yr adeiniau.<br>• Byddir yn monitro'r gweithredoedd hyn a'u heffeithlonrwydd trwy'r Cyfarfod Sicrhau Perfformiad misol. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Medi 2023<br><br>Rhagfyr 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13. | **Ni châi holl alwadau carcharorion a gâi eu monitro'n llawn er mwyn gwarchod y cyhoedd eu monitro, esgeulustod sylweddol wrth warchod y cyhoedd.** | Bydd Pennaeth Gweithrediadau'n gwella prosesau monitro galwadau trwy:<br>• Adolygu'r broses monitro gwarchod y cyhoedd ac edrych ar gyfleoedd i greu Hwb Gwarchod y Cyhoedd, gan ddod ynghyd holl elfennau gwarchod y cyhoedd i un maes.<br>• Creu system sy'n nodi'n gywir galwadau y mae gofyn eu monitro yn erbyn y rhai a gaiff eu monitro, yn rhan o'r adolygiad a gaiff ei flaenoriaethu, er mwyn sicrhau nad oes cyfle i esgeulustod yn y dyfodol.<br>• Sicrhau bod unrhyw newid posib i'r ffordd y cynhelir gwaith monitro cyfredol yn cael ei gynnwys yn rhan o'r ymarfer ailbroffilio, i sicrhau y caiff prosesau monitro eu defnyddio'n briodol.<br>• Byddir yn monitro'r gweithredoedd hyn a'u heffeithlonrwydd trwy 'r Cyfarfod Diogelwch, Rheoli Risg Rhyngadrannol a'r Cyfarfod Sicrhau Perfformiad. | Llywodraethwr | Awst 2023<br>Mehefin 2023<br>Hydref 2023<br>Wedi'i gwblhau |